General
Dental
Council

# Canllawiau ar adrodd materion i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Yn weithredol o 1 Chwefror 2025

Rhan bwysig o fod yn weithiwr proffesiynol yw cydnabod pryd y gallai diogelwch cleifion neu hyder y cyhoedd gael ei beryglu gan eich ymddygiad, perfformiad, neu unrhyw broblemau iechyd rydych chi'n eu profi. Dylech allu adnabod pryd mae mater yn codi sy'n gofyn i chi asesu eich addasrwydd eich hun i ymarfer neu addasrwydd i ymarfer y rhai rydych chi'n gweithio gyda nhw.

Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â materion y mae'n rhaid i chi eu hadrodd i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC), gan gynnwys os oes gennych bryderon ynghylch eich addasrwydd eich hun i ymarfer, addasrwydd eraill i ymarfer, neu os ydych yn destun ymchwiliadau rheoleiddiol neu achosion troseddol unrhyw le yn y byd. Mae hefyd yn nodi eich rhwymedigaethau i gydweithredu ag ymholiadau ffurfiol neu anffurfiol a gynhelir gan y GDC neu gorff cyhoeddus.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch a ddylech roi gwybod am fater i'r GDC, dylech gysylltu â ni. Mae'n bwysig rhoi gwybod am faterion a allai godi amheuon ynghylch eich addasrwydd i ymarfer. Os na fyddwch yn rhoi gwybod am faterion o'r fath heb oedi, gallai arwain at honiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer.

Efallai yr hoffech gysylltu â'ch darparwr indemniad neu'ch cymdeithas broffesiynol ynghylch unrhyw rai o'r materion a amlinellir yn y canllaw hwn.

# **Adran un:**
# Pryderon ynghylch addasrwydd eich hun neu eraill i ymarfer

Rhaid i chi hysbysu’r GDC os oes gennych bryderon ynghylch eich ymddygiad, perfformiad neu iechyd sy’n effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer.

## Iechyd

Rydym yn deall y gall pryderon iechyd fod yn gymhleth, ac nid yw bob amser yn hawdd penderfynu a oes angen i chi hysbysu'r GDC am eich amgylchiadau. Mae pethau a allai ddangos bod angen i chi siarad â'r GDC yn cynnwys: diagnosis o gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol newydd a allai effeithio ar eich gallu i ymarfer yn ddiogel, ailwaelu o ran cyflwr presennol neu newidiadau i'r amgylchedd gwaith sydd wedi effeithio ar y cymorth a ddarperir yn lleol.

Dylech siarad â'ch rheolwr, cyflogwr neu bennaeth y practis am unrhyw risgiau a achosir gan eich cyflwr iechyd a allai fod yn peryglu cleifion neu'n lleihau hyder yn y proffesiwn. Rhaid i chi gymryd camau i fynd i’r afael ag unrhyw risgiau.

Efallai yr hoffech geisio cyngor gan gymheiriaid, eich cyflogwr, iechyd galwedigaethol, a/neu feddyg a chymryd camau pellach gan gynnwys newid, addasu, neu gyfyngu ar eich ymarfer, a gwneud addasiadau rhesymol.

Os ydych chi'n dal i bryderu y gallai eich addasrwydd i ymarfer fod wedi'i amharu, rhaid i chi hysbysu'r GDC ar unwaith a rhoi'r gorau i ymarfer os oes angen.

## Ymddygiad a pherfformiad

Os gallai cleifion fod mewn perygl oherwydd problem ymddygiad neu berfformiad, rhaid i chi gymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Lle bo modd, dylid cymryd y camau hyn yn lleol yn y lle cyntaf.

Dylech drafod y mater gyda'ch rheolwr, cyflogwr neu bennaeth y practis i ddeall beth ellir ei wneud nesaf.

Os ydych chi'n dal i bryderu y gallai eich addasrwydd i ymarfer fod wedi'i amharu, neu na ellir datrys y mater yn lleol, a'ch bod o bosibl yn peryglu cleifion neu'n lleihau hyder yn y proffesiwn, rhaid i chi hysbysu'r GDC ar unwaith.

### Rhaid i chi godi pryderon sydd gennych ynghylch iechyd, ymddygiad neu berfformiad cydweithiwr.

Os ydych chi'n pryderu bod iechyd, ymddygiad neu berfformiad cydweithiwr yn peryglu cleifion neu y gallai leihau ymddiriedaeth yn y proffesiwn, dylech chi weithredu i fynd i'r afael â hyn. Bydd unrhyw gamau y byddwch yn penderfynu eu cymryd yn dibynnu ar gyd-destun a difrifoldeb y pryder. Gallai'r camau hyn gynnwys siarad â'r unigolyn i ddeall y sefyllfa'n well, eu hannog i gael cymorth, a hysbysu eu rheolwr, cyflogwr, neu bennaeth y practis.

Os ydych chi'n dal i bryderu y gallai gweithiwr deintyddol proffesiynol arall fod yn peryglu cleifion neu'n lleihau hyder yn y proffesiwn, rhaid i chi hysbysu'r GDC ar unwaith.

Mae codi pryderon gyda'r GDC yn fater difrifol a rhaid i chi ddefnyddio eich barn broffesiynol a

chodi materion dim ond lle mae gennych bryder rhesymol nad yw'n gysylltiedig â materion personol na chyflogaeth.

# Adran dau:
# Achosion gan gorff rheoleiddio neu gyhoeddus

Rhaid i chi hysbysu'r GDC ar unwaith os ydych chi'n ddarostyngedig i weithdrefnau addasrwydd i ymarfer rheoleiddiwr gofal iechyd arall, naill ai yn y Deyrnas Unedig neu unrhyw le arall yn y byd.

Dylech gysylltu â'r GDC os bydd canfyddiadau a wneir gan unrhyw gorff cyhoeddus yn codi pryderon ynghylch eich ymddygiad neu berfformiad  a allai effeithio ar ddiogelwch cleifion a/neu hyder y cyhoedd.

Os bydd rhywun yn dweud wrthym am ganfyddiad a wnaed yn eich erbyn gan gorff cyhoeddus, efallai y byddwn yn agor achos addasrwydd i ymarfer os ydym yn ystyried bod y canfyddiad yn codi pryderon a allai effeithio ar ddiogelwch cleifion neu hyder y cyhoedd.

# Adran tri:
## Achosion troseddol

**Rhaid i chi hysbysu'r GDC ar unwaith os byddwch chi yn unrhyw le yn y byd:**

- yn cael eich cyhuddo o drosedd, gan gynnwys troseddau traffig ffyrdd
- y ceir chi yn euog o drosedd, gan gynnwys troseddau traffig ffyrdd
- yn derbyn rhyddhad amodol am drosedd
- yn derbyn rhybuddiad troseddol (gan gynnwys rhybuddiad amodol), neu'n cyfaddef yn ffurfiol fel arall i gyflawni trosedd
- yn derbyn rhybudd ffurfiol i oedolion (yn yr Alban)
- yn derbyn rhybuddiad (oni bai eich bod o dan 18 oed pan gyhoeddwyd y rhybuddiad)
- yn cael eich rhoi ar restr waharddedig, fel y rhai a gedwir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu Disclosure Scotland.

**Nid oes rhaid i chi hysbysu'r GDC am hysbysiadau neu orchmynion fel y canlynol:**

- Hysbysiad cosb sefydlog am drosedd traffig ffyrdd.
- Hysbysiad cosb sefydlog a gyhoeddir gan awdurdodau lleol (er enghraifft am droseddau fel baw cŵn, neu graffiti).
- Gorchmynion sifil, er enghraifft y rhai i atal ymddygiad troseddol neu orchmynion ataliol eraill.
- Euogfarn neu rybuddiad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, na fyddai'n drosedd pe bai wedi'i chyflawni yng Nghymru a Lloegr.

**Dylech ystyried hysbysu'r GDC os gallai eich ymddygiad fod yn gyfystyr â chamymddygiad:**

Mewn rhai amgylchiadau, gall yr ymddygiad a arweiniodd at hysbysiad, gorchymyn, neu benderfyniad arall y tu allan i'r llys godi pryderon ehangach ynghylch eich ymddygiad neu'ch perfformiad. Mae angen i chi ystyried a yw eich ymddygiad yn codi pryderon ynghylch diogelwch cleifion neu, pe bai'n dod yn hysbys yn eang, a allai danseilio hyder y cyhoedd yn y proffesiwn deintyddol. Mewn amgylchiadau lle mae pryderon ynghylch diogelwch cleifion neu lle gallai hyder y cyhoedd gael ei danseilio, dylech hysbysu'r GDC.

Dylech fod yn ymwybodol, os bydd rhywun arall yn dweud wrthym am hysbysiad, gorchymyn, neu warediad arall y tu allan i'r llys yr ydych wedi bod yn destun iddo, efallai y byddwn yn agor ymchwiliad addasrwydd i ymarfer os yw'r amgylchiadau o gwmpas derbyn yr hysbysiad neu'r gorchymyn yn codi pryderon ynghylch eich ymddygiad neu'ch perfformiad. Dylech hefyd fod yn ymwybodol, os bydd rhywun arall yn dweud wrthym am y mater, efallai y byddwn yn ystyried a allai'r methiant i ddweud wrthym fod yn rhan o ystyriaethau addasrwydd i ymarfer.

Os cewch eich arestio neu eich ymchwilio am drosedd, nid oes rhaid i chi hysbysu'r GDC. Fodd bynnag, ar gyfer troseddau difrifol, dylech ystyried yr effaith ar hyder y cyhoedd ac a fyddai hysbysu'r GDC yn helpu i gynnal hyder yn y proffesiwn.

Os oes angen cyngor arnoch ynghylch a ddylech hysbysu'r GDC, dylech gysylltu â'ch indemniwr, neu'r GDC yn https://www.gdc-uk.org/contact-us

# **Adran pedwar:**
# Adrodd am euogfarnau a rhybuddion yn y gorffennol

Rhaid i chi roi gwybod am bob euogfarn a rhybudd yn y gorffennol, oni bai eu bod yn gymwys fel euogfarnau a rhybuddiadau gwarchodedig.

Mae'n ofynnol i chi roi gwybod am euogfarnau a rhybuddiadau yn eich cais i gofrestru gyda'r GDC neu i gael eich adfer i'r gofrestr. Mae'r ffurflenni cais a'r canllawiau ar gyfer cofrestru ac adfer yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae'n rhaid ei adrodd i'r GDC.

Os na wnaethoch chi roi gwybod am euogfarn neu rybuddiad wrth gofrestru neu adfer, rhaid i chi hysbysu'r GDC ar unwaith.

At ddibenion cyfrifo cyfnodau diogelu mewn perthynas â datgelu euogfarnau a rhybuddiadau, mae'r GDC yn dilyn y gofynion a osodwyd ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r rhain fel a ganlyn:

Rhaid i chi roi gwybod am bob euogfarn am droseddau ar restr droseddau benodol fel yr un a gedwir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a throseddau cyfwerth mewn awdurdodaethau eraill. Rhaid i chi hefyd roi gwybod am bob euogfarn y cawsoch ddedfryd o garchar amdanynt, gan gynnwys pan gafodd y ddedfryd honno ei gohirio.

**Rhaid i chi roi gwybod am bob euogfarn arall oni bai:**

- mae un ar ddeg mlynedd wedi mynd heibio ers dyddiad yr euogfarn, ac roeddech chi'n 18 oed neu'n hŷn ar ddyddiad yr euogfarn; neu
- mae pum mlynedd a hanner wedi mynd heibio, ac roeddech chi o dan 18 oed ar ddyddiad yr euogfarn.

**Rhaid i chi roi gwybod am bob rhybuddiad am droseddau ar restr troseddau benodol os oeddech chi'n 18 oed neu'n hŷn ar yr adeg y rhoddwyd y rhybuddiad. Rhaid i chi hefyd roi gwybod am bob rhybuddiad am droseddau amhenodol oni bai:**

- fe'i cyhoeddwyd chwe blynedd neu fwy yn ôl; neu
- roeddech chi o dan 18 oed ar yr adeg y rhoddwyd y rhybuddiad.

# Adran pump:
## Cydweithredu ag ymchwiliad gan y GDC neu gorff cyhoeddus

Os bydd y GDC neu gorff cyhoeddus yn cysylltu â chi, rhaid i chi ymateb yn llawn o fewn yr amser a bennir.

Os yw'r cyfathrebiad yn ymwneud â phryderon ynghylch eich addasrwydd i ymarfer, dylech ystyried hysbysu'ch darparwr indemniad/yswiriant, a gwneud hyn cyn gynted â phosibl. Efallai yr hoffech hefyd geisio cyngor gan eich darparwr indemniad neu gymdeithas broffesiynol ynghylch unrhyw sefyllfa lle mae'n ofynnol i chi gydweithredu ag ymchwiliad.

Pan godir pryder gennych chi neu amdanoch chi, mewn perthynas ag adrannau 1-3 o'r canllaw hwn, mae gennych rwymedigaeth broffesiynol i gydweithredu ag unrhyw ymchwiliad ac i gydymffurfio ag unrhyw sancsiwn (er enghraifft, amodau ar eich ymarfer) a all ddilyn.

## Sail gyfreithiol ar gyfer y canllaw hwn

Mae'r sail ar gyfer y gofynion a amlinellir yn y canllawiau hyn yn deillio o Adrannau 26B a 36M, yn ogystal ag Adrannau 27 a 36N o'r Ddeddf Deintyddion, 1984.

**CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL**
37 Stryd Wimpole, Llundain W1G 8DQ
**020 7167 6000**
**information@gdc-uk.org**
www.gdc-uk.org